**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bethan Jenkins AM
Chair
The Welsh Culture, Welsh Language
& Communication Committee
National Assembly for Wales
Ty Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

26 Medi 2016

Annwyl Bethan,

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Iaith Gymraeg a Chyfathrebu ar Ddydd Mercher 14 Medi, yn unol â'ch cais dyma ddarparu nodyn ar gylch gwaith Adolygiad Donaldson mewn perthynas â'r iaith Gymraeg trwy gontinwwm addysg.

Mae Dyfodol Llwyddiannus wedi derbyn y ddadl o blaid cadw'r Gymraeg yn rhan orfodol o'r cwricwlwm ysgol i ddysgwyr 3 i 16 oed. Yn ogystal ag ymgymryd ag ymchwil ei hun, roedd gan Adolygiad yr Athro Donaldson fynediad i gyfoeth o dystiolaeth arall gan gynnwys adroddiad Un Iaith i Bawb Er nad yw'r adroddiad yn cyfeirio'n benodol at gontinwwm iaith Cymraeg, mae argymhelliad 23 yn nodi:

*Dylai cynnydd yn y Gymraeg tuag at gymhwysedd rhyngweithredol yn 16 oed gael ei adlewyrchu'n briodol yn y Camau Cynnydd a Deilliannau.*

Defnyddir dull partneriaethau sy'n cynnwys rhwydwaith o Ysgolion Arloesi, gwneuthurwyr polisïau, rhanddeiliaid ac arbenigwyr eraill i gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd a threfniadau asesu. Bydd chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) yn y cwricwlwm newydd. O fewn y MDaPh ar gyfer Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu, fe ddatblygir un continwwm ar gyfer yr iaith Gymraeg fel rhan o raglen diwygio'r cwricwlwm a ni fydd Cymraeg ail iaith yn rhan o'r cwricwlwm newydd.

Yn gywir

Kirsty Williams

**Kirsty Williams AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.